CYNGOR DINAS BANGOR

PENODI

CYFARWYDDWR

DINESIG

GWYBODAETH RECRIWTIO

Medi 2020

CYNGOR DINAS BANGOR

LLYFRYN GWYBODAETH

Cynnwys

1. Hysbyseb
2. Cyngor Dinas Bangor
3. Swydd Ddisgrifiad
4. Manyleb y Person
5. Ffurflen Gais

Os ydych angen gwybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu â Joy Roberts yn y cyfeiriad isod:

Os oes gennych anabledd ac angen unrhyw drefniadau arbennig wrth lenwi'r ffurflen gais neu wrth ddod i gyfweliad, rhowch wybod i ni.

Cyngor Dinas Bangor
Ffordd Gwynedd
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

Ffôn: 01248 352421
E-bost: i townclerk@bangorcitycouncil.com

DYDDIAD CAU I DDERBYN CEISIADAU

Hanner dydd, dydd Mercher 21 Hydref 2020.

Dylid nodi ar y ceisiadau

PREIFAT A CHYFRINACHOL

'CAIS AM SWYDD CYFARWYDDWR DINESIG'

a'u hanfon i Joy Roberts yn y cyfeiriad uchod

1. Hysbyseb

CYNGOR DINAS BANGOR

CYFARWYDDWR DINESIG

Cyflog gradd LC3 (newydd) Scp. 33 – Scp. 36 (£36,922 -£39,880)

Mae hon yn swydd gyffrous ac amrywiol sy'n cynnig cyfle i berson brwdfrydig ac egniol i chwarae rhan arweiniol yn natblygiad llewyrchus Dinas Bangor. Bwriada'r Cyngor gyflogi person sydd yn gyfathrebwr penigamp ac yn gallu cydweithio gydag aelodau etholedig ac amrywiol bartneriaid o fewn y Ddinas gan ddangos profiad llwyddiannus o arwain a chyflawni prosiectau.
Os yw'r uchod yn apelio yna cysylltwch â swyddfa Cyngor Dinas Bangor am becyn cais a swydd ddisgrifiad **johnwynnjones@hotmail.co.uk** **neu ewch i'r wefan: https://bangorcitycouncil.com/**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, dydd Mercher 21 Hydref 2020; Bwriedir cynnal cyfweliadau yn ystod yr wythnos ganlynol.

BANGOR CITY COUNCIL
CITY DIRECTOR

Salary Scale LC3 (new) Scp. 33 – Scp. 36 (£36,922 -£39,880)

This is an exciting and varied role that offers the opportunity for an enthusiastic and vibrant person to play a leading role in the successfull development of the City of Bangor. The Council intends employing a person with excellent communicative skills and is able to work with elected members and varied partners within the City and is able to demonstrate the proven ability to lead and deliver projects.
If the above appeals then contact Bangor City Council Offices for an application pack and job description **johnwynnjones@hotmail.com or visit the website: https://bangorcitycouncil.com/**

The closing date for the receipt of applications is 12 noon on Wednesday 21st October 2020; interviews are planned for the following week.

2. CYNGOR DINAS BANGOR

Y Cyngor

Crëwyd Cyngor Dinas Bangor yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol 1974 a derbyn 'Statws Dinas' gan y Frenhines y flwyddyn honno.

Caiff y preswylwyr eu cynrychioli gan 20 Cynghorydd (dros 8 ward), pob un yn cael ei ethol fel arfer am dymor o bedair blynedd. Bydd yr etholiadau nesaf yn 2022. Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn ethol o blith ei aelodau, Maer y Dref a Dirprwy Faer y Dref.

Cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar hyn o bryd yw 7 Cynghorydd Plaid Cymru, 5 Llafur Cymru, 1 Democrat Rhyddfrydol a 7 Annibynnol. Cefnogir y Cyngor gan dîm o weinyddwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth a chyngor proffesiynol ynghyd â thîm bychan sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw y tu allan.

Mae Cyngor y Ddinas yn gyfrifol am drosiant o tua £450,000 y flwyddyn. Mae ei asedau'n cynnwys Pier y Garth, Stadiwm Nantporth a sawl darn o dir arall.

Caiff llawer o waith y Cyngor ei wneud gan Bwyllgorau, mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol, Pwyllgor Nantporth a'r Pwyllgor Staffio, y Pwyllgor Asedau a'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau.

Mae'r Cyngor yn dymuno penodi Cyfarwyddwr Dinesig i chwarae rhan allweddol gyda'r cymunedau, y busnesau a holl randdeliaid Bangor a symbylu a rheoli staff y cyngor.

Gweledigaeth y Cyngor:-

"gweithio mewn partneriaeth â'r cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid i wneud y ddinas yn lle deniadol, diogel a bywiog i fyw, gweithio a buddsoddi ynddi. Er mwyn gwneud hyn bydd y Cyngor yn canolbwyntio'i weithgareddau ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau a'n preswylwyr."

Amcanion Corfforaethol

1. Cynrychioli barn a dymuniadau trigolion Bangor.

2. Diogelu a hyrwyddo diwylliant, traddodiadau, a hunaniaeth y ddinas.

3. Cefnogi gweithgareddau sy'n helpu economi'r ddinas i'w chynnal ei hun ac i dyfu.

4. Hybu gwelliannau amgylcheddol yn y ddinas.

5. Gweithio gyda chyrff y sector cyhoeddus a phreifat i ffurfio dyfodol y ddinas.

6. Hybu bioamrywiaeth, a bywyd iach a gwytnwch i'n preswylwyr.

Swyddogaethau Cyngor y Ddinas

Cyngor y Ddinas yw'r haen gyntaf o lywodraeth leol ac felly hon sydd agosaf at y bobl. Mae'r cyngor yn gorff corfforaethol yn ei hawl ei hun ac mae ganddo bwerau statudol, sy'n caniatáu iddo wario, codi neu ddefnyddio arian i wasanaethu'r gymuned. Yr haen nesaf yw Cyngor Gwynedd ac yna Llywodraeth Cymru.

Mae gan Gyngor y Ddinas lawer o bwerau. Gyda'i gilydd mae'r Cynghorwyr yn penderfynu sut a pha bwerau i'w defnyddio, a'r broses hon o wneud penderfyniadau sy'n gwneud Cyngor blaengar a ddaw â buddiannau cadarnhaol i fywydau ei etholwyr.

Mae'r ystod o bwerau sydd ar gael i gyngor yn parhau i newid ac yn ôl cynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'n amlwg mai bwriad Llywodraeth Cymru yw rhoi bywyd newydd i wleidyddiaeth leol drwy roi mwy o rym i gyngor fel un Bangor. Mae'r neges yn glir, bydd gwasanaethau'n cael eu gwella drwy ddod â nhw yn nes a'u gwneud yn fwy ymatebol i bob cymuned leol.

Darparu Gwasanaethau

Mae gan Gyngor Dinas Bangor lu o gynlluniau ar y gweill i gynnal a gwella'r Ddinas o fewn ein hamcanion economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag Ardal Gwella Busnes (*BID*) Bangor, Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor, y Grŵp Partneriaeth Strategol, Grŵp Delwedd Bangor a phob math o gyrff i wella a hyrwyddo'r Ddinas.

Pier y Garth yw un o brif atyniadau Bangor sydd o dan berchnogaeth a rheolaeth y Cyngor. Mae'r Cyngor yn berchen hefyd ar Stadiwm Nantporth, cartref Clwb Pêl-droed Dinas Bangor a thir arall yn cynnwys Caeau Dargie, Caeau Ashley Jones, Coedydd Menai ayb. Mae'r Cyngor yn allweddol mewn trefnu a chefnogi digwyddiadau lleol, gan gynnwys y Farchnad dydd Gwener.

Mae Cyngor y Ddinas yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros reoli ein mannau awyr agored megis y parciau, llefydd chwarae, y promenâd, a llochesau bws a dodrefn stryd.

Cyfarfodydd

Cynhelir y cyfarfodydd i gyd yn Neuadd y Penrhyn, nesaf at Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Gwynedd, Bangor ac maent yn dechrau fel arfer am 6.30 pm. Pennir y rhestr o gyfarfodydd ar ddechrau pob blwyddyn Gyngor.

Strwythur Staffio

Staff y Cyngor sy'n gweithredu polisïau'r Cyngor ac yn gweinyddu a rhoi ar waith y swyddogaethau a'r gwasanaethau a amlinellwyd uchod. Bydd y Cyfarwyddwr Dinesig yn rheoli'r staff gweinyddol, dau dechnegydd awyr agored a dau weithiwr tymhorol. Mae nifer fechan o Gynghorwyr ar y pwyllgor staffio, sy'n goruchwylio trefniadau a pholisïau cyflogaeth, yn cynnwys recriwtio, cyflog a datblygiad personol parhaus.

3. SWYDD DDISGRIFIAD

Manylion y Swydd:	Cyfarwyddwr Dinesig (sy'n ymgorffori rôl Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Priodol
Yn atebol i:	Cyngor y Ddinas fel y corff corfforedig.
Lleoliad:	Swyddfeydd Cyngor y Ddinas, Ffordd Gwynedd, Bangor.
Oriau Gwaith	Llawn amser 37.5 awr yr wythnos Oriau swyddfa yn bennaf ond gyda chyfarfodydd gyda'r nos a gweithio ar y penwythnos o bryd i'w gilydd
Graddfa Gyflog	Mae'r cyflog yn cyfateb i SCP 33-36 (graddfa newydd) yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad. Byddai disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau cyfnod prawf o chwe mis Ceir codiadau cyflog yn unol â dyfarniad cyflog blynyddol Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol
Cynllun Pensiwn	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Proffil y Swydd	Rôl y Cyfarwyddwr Dinesig i chwarae rhan allweddol gyda'r cymunedau, y busnesau a holl randdeliaid Bangor a symbylu a rheoli staff y cyngor er mwyn gwneud y ddinas yn lle deniadol, diogel a bywiog i fyw, gweithio a buddsoddi ynddi.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Bod yn Rhagweithiol yn Natblygiad Dinas Bangor

Bod yn weithredol a gweladwy ym mhob un o gymunedau Bangor gan gefnogi'r cynghorwyr lleol wrth iddynt geisio cyfleoedd i wella profiad bywyd pawb o fewn y cymunedau hynny.

Bod yn weithredol a gweladwy gyda busnesau Bangor, yn annog buddsoddi, datblygu busnes a'r dolenni cyswllt rhwng busnesau a'r gymuned gan ychwanegu drwy hynny at brofiad y Defnyddiwr yn y Ddinas.

Bod yn weithredol a gweladwy gyda chyrff y sector cyhoeddus sy'n gallu ffurfio cyfranogiad a buddsoddiad y sector yn y Ddinas.

Cynrychioli'r cyngor mewn trefniadau partneriaeth a chyfarfodydd

Bod yn swyddog arweiniol wrth gyflawni prosiectau arbennig

Sicrhau cysylltiadau effeithiol â'r cyfryngau a hyrwyddo Cyngor y Ddinas a chynlluniau a phrosiectau eraill.

Statudol

Sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau cyfreithiol, statudol ac eraill sy'n llywodraethu neu'n effeithio ar redeg y Cyngor yn unol â chyfrifoldebau Swyddog Priodol Cyngor.

Gweithredu fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol wrth reoli cyllidebau, asedau ac adnoddau o safbwynt pob mater gweithredol

Mynychu prif gyfarfodydd y Cyngor, ac is-bwyllgorau eraill fel bo'r angen.

Sicrhau fod asedau'r Cyngor ar ffurf ystadau, tir, adeiladau ac eiddo yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Gweithredu fel swyddog iechyd a diogelwch y Cyngor.

Rheoli Staff a Goruchwylio Gwaith

Rheoli a goruchwylio staff y Cyngor gan sicrhau fod y swyddi dynodedig yn effeithiol ac yn cael eu gwneud mewn modd priodol ac a fydd yn cynnwys:

- Paratoi agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor
- Paratoi cofnodion cyfarfodydd a chofnodion statudol eraill o bob cyfarfod a gweithredu yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan benderfyniadau, argymhellion a chyfarwyddiadau'r cyfarfodydd hynny ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- Anfon unrhyw lythyrau a hysbysiadau statudol, cofnodion ayb.
- Trefnu achlysuron y Cyngor a rhai dinesig eraill.
- Gosod a sicrhau cydymffurfiaeth â chontractau allanol
- Cynnal y llyfr cyfrifon er mwyn rheoli incwm a gwariant ac ar gyfer paratoi cyfrifon wedi'u harchwilio.

Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr derfynol o ddyletswyddau. Mae Cyngor y Ddinas yn cadw'r hawl, ar ôl ymgynghoriad addas â'r staff, i amrywio'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau o fewn terfynau'ch graddfa a'ch gallu galwedigaethol er mwyn ymateb i newidiadau yn y gwasanaeth.

Llofnodwyd gan Ddeiliad y Swydd: ……

Dyddiad: ……

Llofnodwyd gan Gadeirydd CDB: ……..…….....

Dyddiad: ……

4. MANYLEB Y PERSON

- Tystiolaeth o fod wedi bod yn arloesol a chreadigol mewn rôl ddatblygu mewn sefydliad ac o fod wedi gweld canlyniadau pendant mewn datblygiad economaidd neu gymunedol.
- Awydd ac ymrwymiad i ganfod cyfleoedd a chyflawni allbynnau er budd Dinas Bangor.
- Rhwyddineb wrth gyfathrebu mewn galwadau cymdeithasol, partneriaethau a thimau prosiect.
- Y gallu i gyflwyno gwybodaeth yn glir a meddu ar yr hyblygrwydd i addasu i gynulleidfaoedd gwahanol drwy amryw o ffyrdd, yn cynnwys yn ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb, ac yn ffurfiol ac anffurfiol.
- Meddu ar wybodaeth weithio dda o'r Gymraeg a'r Saesneg, yn llafar ac ysgrifenedig, a dymuniad i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y Ddinas.
- Sgiliau arwain a rheoli staff; yn cynnwys y gallu i ysgogi staff a'u helpu i ddatblygu.
- Cymwysterau addas a pherthnasol.
- Dealltwriaeth o Gynghorau Lleol, eu rôl a'u pwysigrwydd strategol o fewn Llywodraeth Leol a'r problemau y maent yn eu hwynebu.

Sgiliau Personol Eraill

- Y gallu i'ch cymell eich hun;
- Sgiliau trefnu
- Wedi ymrwymo i Ddatblygiad Personol Parhaus;
- Hyblygrwydd i weithio gyda'r nos ac ambell i benwythnos

CYMWYSTERAU A HYFFORDDIANT

Byddai cymhwyster perthnasol yn ddymunol a pharodrwydd i weithio tuag at y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Llywodraeth Leol (CiLCA)

GWYBODAETH BELLACH

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgelu mewn ysgrifen os ydynt yn perthyn i unrhyw Gynghorydd neu weithiwr yng Nghyngor Dinas Bangor a bydd methu â gwneud hynny'n eich gwneud yn anghymwys.

Bydd canfasio o unrhyw fath yn gwneud unrhyw ymgeisydd yn anghymwys yn syth.